

Cymdeithas Bob Owen

Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 55


Pris i aelodau: £5.00 y flwyddyn
Pris i'r cyhoedd: £1.50 y rhifyn

Haf 1995

RHIFYN AMRYWIOL ARALL

Dyma rifyn amrywiol arall o Y CASGLWR yn boeth o'r wasg. Ceir yma erthyglau ar deganau Trefnant, William Rees (Gwilym Hiraethog), llyfrau mawr a mân, datblygiad y cerdyn post darluniadol, Cymry'r cardiau post, darllenwyr dethol Y Bont-faen ac olrhain hanes arysgrifau. Hefyd sgwrs â'r Athro Hywel Roberts, nifer dda o'r pethau sydd 'Yn Eisiau' ac 'Ar Werth' gennych ac hysbysebion gan lyfrwerthwyr.

TRYCHINEB AR Y RHEILFFORDD GER ABERGELE



Am tua chwarter i un amser cinio dydd Iau, 20 Awst 1868, bu damwain ddifrifol ar y rheilffordd rhwng Abergele a Llanddulas. Lladdwyd 33 o bobl yn y ddamwain a ddigwyddodd pan fu'r Irish Mail a oedd yn teithio o Lundain i Gaerdybi mewn gwrthdrawiad â nifer o wagenni oedd wedi dod yn rhydd o drên arall. Daw'r llun yma o rifyn 29 Awst 1868 o'r *Illustrated London News*. Dywedir bod y llun wedi ei gynhyrchu awr a hanner ar ôl i'r ddamwain ddigwydd. Dyma rai o sylwadau'r *Illustrated London News* . . . 'a new horror has been added to the number of horrors to which railway travellers are exposed. The Irish limited mail, ascending an incline . . . came into collision with some detached waggons of a goods-train . . . One of these waggons was laden with barrels of petroleum, an oil which becomes explosive at comparatively low temperature. The barrels burst with the shock, the vapour of the oil came in contact with the fire of the engine, and in a moment the front division of the train was enveloped in a sheet of fierce and inextinguishable flame . . . Such a frightful, such a lamentably fatal, railway accident has never occurred before in England.' Sefydlwyd yr *Illustrated London News* fel wythnosolyn ym mis Mai 1842 ac erbyn 1843 yr oedd yna 60,000 o bob rhifyn yn cael eu gwerthu. Erbyn 1856 yr oedd yn gwerthu 200,000 o bob rhifyn. Y mae yna lawer iawn o ddeunydd Cymreig yn yr *Illustrated London News*.